



# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

---

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ddarn pwysig o ddeddfwriaeth ynghylch sut y dylem fod yn darparu gofal a chymorth i'r rheini sydd angen hyn yng Nghymru.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys:

- rheoliadau, sy'n rhoi mwy o fanylion am yr hyn y mae'n rhaid ei wneud i roi'r Ddeddf ar waith
- codau ymarfer, sy'n rhoi canllawiau i helpu i roi'r Ddeddf ar waith.

Mae'r Ddeddf yn ymdrin â'r canlynol:

- **oedolion** (pobl 18 oed neu hŷn)
- **plant** (pobl dan 18 oed)
- **gofalwyr** (oedolion neu blant sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal a chymorth).

Mae'r Ddeddf yn seiliedig ar bum egwyddor bwysig, does dim angen i chi wybod manylion am y Ddeddf a'r rheoliadau, ond mae angen i chi ddeall yr egwyddorion gan y bydd y rhain yn sail i'r ffordd rydych chi'n gweithio:

- llais a rheolaeth
- atal ac ymyrryd yn gynnar
- llesiant
- cyd-gynhyrchu
- amlasiantaeth.

I'ch helpu i ddechrau arni, [gwylwch y ffilm hon sy'n cyflwyno'r Ddeddf a'i hegwyddorion.](#)

Rydym nawr yn mynd i drin a thrafod yr egwyddorion hyn fesul un.

## Egwyddor 1: Llais a rheolaeth



**Mae'r person wrth galon y broses o wneud penderfyniadau**

### **Gallai hyn gynnwys:**

- cael cartref diogel a pharhaol
- cymryd rhan mewn gweithgareddau
- gallu cynllunio a choginio pryd o fwyd
- aros neu ddod yn rhan o'u cymunedau

Mae'r Ddeddf yn rhoi llais cryfach i bobl a mwy o reolaeth dros y cymorth a'r gwasanaethau maen nhw'n eu cael i'w helpu i sicrhau eu llesiant a'r pethau sydd bwysicaf iddyn nhw.

## Egwyddor 2: Atal ac ymyrryd yn gynnar

Cymorth

Cefnogaeth

### Mae'r Ddeddf wedi'i chynllunio i sicrhau:

- bod pobl yn gofyn am yr help sydd ei angen arnynt pan fydd ei angen arnynt i atal eu sefyllfa rhag gwaethygu
- bod gofalwyr yn gallu cael gafael ar gymorth i'w cynorthwyo yn eu rolau gofalu ac i gynnal eu llesiant eu hunain



Cyngor a chymorth amserol

Mae'n bwysig bod pobl yn cael cyngor a chymorth mewn da bryd i rwystro pethau rhag mynd yn argyfwng. Mae camu i mewn yn gynnar i helpu pobl yn gallu lleihau neu ohirio'r angen am ofal a chymorth yn y tymor hwy.

## Gweithgaredd dysgu - atal ac ymyrryd yn gynnar

Mae June yn 52 oed ac mae ganddi sglerosis ymledol. Llinos, ei merch 15 oed, yw ei gofalwr. Pan mae symptomau June yn wael iawn, nid yw Llinos yn gallu mynd i'r ysgol gan fod yn rhaid iddi aros gartref i ofalu am ei mam.

Ar ôl brwydro am rai misoedd, mae June a Llinos yn penderfynu bod angen help arnynt, felly maent yn cysylltu â gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth (IAA) eu hawdurdod lleol. Mae'r gwasanaeth yn cynnal asesiad cynnar dros y ffôn. Dilynr hyn gan ymweliadau gan weithiwr gwybodaeth, cyngor a chymorth sy'n cwblhau asesiad llawn gyda June a Llinos. Mae'r asesiad yn helpu June a Llinos i siarad am eu sefyllfa, yr hyn y maent eisiau ei gyflawni, a sut y gallant wneud hyn. Gan fod Llinos dan 18 oed, rhaid i'r asesiad ystyried ei lles a'i hanghenion datblygu.

Mae'r ddwy yn glir eu meddwl ynghylch beth fyddai'n gwneud eu bywydau'n well. Byddai June yn hoffi peidio â gorfod dibynnu gymaint ar Llinos. Byddai hefyd yn hoffi gallu mynd allan o'r tŷ yn amlach a themlo ei bod yn gwneud rhywbeth gwerth chweil â'i hamser. Yn bennaf oll, mae June yn poeni bod Llinos yn colli'r ysgol.

Byddai Llinos yn hoffi pe bai'n gallu mynd i'r ysgol heb orfod poeni am sut mae ei mam yn ymdopi a chael amser i wneud ei gwaith cartref. Mae hi hefyd eisiau gweld mwy o'i ffrindiau.

a. Beth, yn eich barn chi, allai fod yn bwysig i June a Llinos?

b. Beth, yn eich barn chi, allai fod yn bwysig **ar gyfer** June a Llinos?

c. Sut gallai cyngor a chymorth gefnogi canlyniadau cadarnhaol ar gyfer June a Llinos?

d. Beth allai ddigwydd i June a Llinos os nad ydynt yn cael unrhyw gyngor neu gymorth?

## Egwyddor 3: Llesiant

Cefnogi **llesiant** unigolion a helpu pobl i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt



Er bod gan bobl gyfrifoldeb dros eu **llesiant** eu hunain, bydd angen help ar rai ohonynt i sicrhau hyn

**Bydd y Ddeddf yn newid y ffordd y mae gwasanaethau cymdeithasol, iechyd a gwasanaethau gofal a chymorth eraill yn **gweithio gyda'i gilydd** i helpu ac i gefnogi pobl**


Mae hawl pobl i lesiant wrth wraidd y Ddeddf. Er bod gan bobl gyfrifoldeb dros eu llesiant eu hunain, bydd angen help ar rai ohonynt i sicrhau hyn.

Gellid dehongli llesiant mewn sawl ffordd. Mae Geiriadur Saesneg Rhydychen yn diffinio llesiant fel "y cyflwr o fod yn gyfforddus, yn iach neu'n hapus". Mae'n bwysig deall beth mae hyn yn ei olygu i'r bobl rydych chi'n eu cefnogi.

Mae mwy i lesiant na dim ond bod yn iach. Mae hefyd yn gallu cynnwys y canlynol:

- bod yn ddiogel
- cael rhywle addas i fyw
- bod yn rhan o benderfyniadau am eich bywyd
- cael ffrindiau
- bod yn rhan o gymunedau da a chryf
- cael pob cyfle posibl i wneud yn dda ym myd addysg
- teimlo'n dda am eich bywyd
- i oedolion – gallu gweithio
- i blant – gallu tyfu'n hapus ac yn llwyddiannus, a derbyn gofal da.

Man cychwyn defnyddiol yw meddwl am lesiant yn eich bywyd eich hun a beth mae hyn yn ei olygu i chi. Meddylwch am hyn ac ysgrifennwch ychydig frawddegau am yr hyn sy'n bwysig i chi a beth sy'n eich helpu i gael bywyd da.



Llesiant – mae’n hanfodol deall beth mae hyn yn ei olygu iddyn nhw

### Y celfyddydau a llesiant

Mae’r celfyddydau’n dod â lliw, cysur, dychymyg ac ystyr i fywyd, a gallant fod yn bwysig i’n hymdeimlad o lesiant. Maent yn gallu bod yn arbennig o ddefnyddiol mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol.

Gall ymgysylltu â’r celfyddydau wneud y canlynol:

- gwella iechyd emosiynol drwy helpu pobl i ymlacio a rhyddhau eu hemosiynau
- darparu ffordd bwysig o fynegi eu hunain
- darparu cyswllt cymdeithasol plaserus
- cynyddu hunan-barch, hyder a thwf personol
- datblygu ein hunanymwybyddiaeth.

## Gweithgaredd dysgu – y celfyddydau a llesiant

Mae Idris yn byw mewn cartref gofal yn Aberpennar. Nid oes ganddo deulu ac nid oes neb yn ymweld ag ef. Mae Idris yn byw gyda dementia ac yn aml mae'n isel ei ysbryd ac yn dawedog. Mae'r staff yn sylwi arno'n cyd-ganu Calon Lân wrth weld côr meibion yn canu mewn cyngerdd ar y teledu.

Mae'r staff yn lawrlwytho cyngherddau côr i Idris wrando arnynt yn ei ystafell ar ei gyfrifiadur tabled. Mae'n gwneud hyn y mwyafrif o gyda'r nosau ac mae'n gwella ei hwyliau. Mae'r staff bellach wedi trefnu i rai aelodau o gôr lleol ddod i berfformio cyngerdd bach ac maent yn bwriadu sefydlu côr yn y cartref i'r staff a'r preswylwyr ganu gyda'i gilydd.

Meddyliwch sut y gellid defnyddio'r celfyddydau gyda'r bobl rydych chi'n gweithio â nhw i gefnogi eu llesiant.

## Egwyddor 4: Cyd-gynhyrchu

Bydd pobl yn chwarae mwy o ran yn y gwaith o gynllunio a darparu eu cymorth gan **weithio gyda nhw** a'u teulu, eu ffrindiau a'u gofalwyr

Cydnabod cryfderau ac arbenigedd

Gweithio gyda phobl mewn ffordd fwy cyfartal

Cyd-gynhyrchu eu



O dan y Ddeddf, bydd pobl yn chwarae mwy o ran yn y gwaith o gynllunio a darparu eu gofal a'u cymorth. Mae'n golygu gweithio gyda nhw a'u teulu, eu ffrindiau a'u gofalwyr er mwyn sicrhau'r gofal a'r cymorth gorau bosib iddynt. Mae'n cydnabod cryfderau pobl a'r arbenigedd sydd ganddynt i'w gynnig. Bydd hyn yn sicrhau bod ein gwasanaethau gofal a chymorth yn cael eu cynllunio ar sail yr hyn sydd bwysicaf i bobl.



## Gweithgaredd dysgu – pwysigrwydd gweithio gydag unigolion i sicrhau canlyniadau cadarnhaol

Mae John yn 21 oed ac yn byw gartref gyda'i rieni.

Mae ganddo fywyd teuluol hapus. Mae'n mwynhau coginio a helpu ei fam i baratoi pryd gyda'r nos. Mae hefyd yn helpu ei fam i wneud y siopa bwyd bob wythnos ac mae'n hoffi dewis rhai o'r cynhwysion ar gyfer coginio.

Mae gan John anabledd dysgu ac mae'n cael cymorth gan y gwasanaethau dydd ddau ddiwrnod yr wythnos. Mae ei frawd yn byw gerllaw ond yn gweithio i ffwrdd yn ystod yr wythnos. Mae fel arfer yn mynd allan gydag ef ar ddydd Sadwrn. Mae'n agos at ei holl deulu.

Mae rhieni John yn mynd yn hŷn, ac maent yn ei chael hi'n anodd gofalu amdano ar eu pen eu hunain. Mae tad John wedi cael strôc ac mae ei fam yn colli ei golwg. Dydyn nhw ddim eisiau meddwl am y dyfodol a beth allai ddigwydd i John pan na fyddan nhw'n gallu ei gefnogi mwyach.

Pan mae mam John yn cael codwm sy'n golygu bod yn rhaid iddi fynd i'r ysbyty, ni all ei dad ofalu amdano'i hun a John. Rhaid i John symud i lety byw â chymorth brys.

Mae symud yno yn gwneud John yn anhapus. Nid yw'n agos at ei gartref, nid yw'n cyd-dynnu â'r bobl y mae'n byw gyda nhw, ac nid yw'n coginio o gwbl gan fod y staff yn paratoi'r holl brydau. O ganlyniad, mae John wedi mynd i'w gragen ac wedi rhoi'r gorau i siarad â phobl.

a. Beth, yn eich barn chi, sy'n bwysig i John?


b. Beth, yn eich barn chi, sy'n bwysig **ar gyfer** John?

c. Beth y gellid ei newid i helpu John i gyflawni'r canlyniadau sy'n bwysig iddo?

d. Beth allai fod wedi helpu yn gynharach?

e. Sut gallech chi weithio gyda John a'i deulu i wneud yn siŵr eu bod yn bartneriaid cyfartal a bod ganddynt lais a rheolaeth go iawn dros ei ofal a'i gymorth?

## Egwyddor 5: Amlasiantaeth



Mae'r Ddeddf yn cryfhau'r cydweithio rhwng awdurdodau lleol a phartneriaid eraill, megis iechyd, tai a'r sector gwirfoddol, i wella llesiant pobl ac ansawdd gwasanaethau. Weithiau, gelwir hyn yn 'integreiddio'.

## Gweithgaredd dysgu – gweithio mewn partneriaeth

Meddylwch sut rydych chi'n gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill a chymunedau lleol yn eich rôl:

- gyda phwy ydych chi'n gweithio a beth ydych chi'n ceisio ei gyflawni?
- oes yna bobl eraill yn eich cymuned leol y gallech chi weithio â nhw?
- beth yw'r manteision sy'n deillio o asiantaethau'n gweithio gyda'i gilydd dros bobl?
- pa wahaniaeth fyddai hyn yn ei wneud i fywydau'r bobl rydych chi'n eu cefnogi?

---

## Crynodeb

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi sut y dylem ddarparu gofal a chymorth. Mae ganddi bum egwyddor bwysig:

- **Llais a rheolaeth** – rhoi unigolyn a'i anghenion wrth galon ei ofal a'i gymorth, gyda llais a rheolaeth dros y canlyniadau a fydd yn ei helpu i sicrhau ei lesiant
- **Atal ac ymyrryd yn gynnar** – gallu cael gafael ar gyngor a chymorth yn gynnar er mwyn cynnal bywyd o ansawdd da, a lleihau neu ohirio'r angen am ofal a chymorth yn y tymor hwy
- **Llesiant** – cefnogi pobl i sicrhau eu llesiant ym mhob rhan o'u bywydau
- **Cyd-gynhyrchu** – cynnwys pobl yn y gwaith o ddylunio a darparu eu cymorth a'u gwasanaethau, a chydabod yr wybodaeth a'r arbenigedd y gallant eu cynnig
- **Amlasiantaeth** – gweithio mewn partneriaeth cadarn rhwng pob asiantaeth a sefydliad i wella llesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt.